Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
CAERDYDD,
CF99 1NA

21 Mai 2019

Annwyl Mick,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 6, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2019, a Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019.

Mae'n wir bod y Gorchymyn cyntaf yn adlewyrchu graddfa'r ddarpariaeth y gallai fod ei hangen wrth newid o un fframwaith deddfwriaethol i un arall. Rydym bob amser yn ofalus wrth ddrafftio i sicrhau nad yw Gorchmynion o'r math hwn yn croesi ffiniau o ran yr hyn a ganiateir neu'r hyn sy'n briodol.

O ran yr ail Orchymyn uchod, a Gorchmynion Cychwyn enghreifftiol eraill a nodir yn yr atodiad, dylid nodi nad oes rhaid gosod y Gorchmynion hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr awgrymir yn eich gohebiaeth. Yn hytrach, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn hysbysu Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn uniongyrchol ynglŷn â Gorchmynion o'r fath, a hynny fel mater o gwrteisi ar ôl iddynt gael eu gwneud, gan gydnabod yn benodol swyddogaethau disgresiwn y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 21.7(iv). Bydd swyddogion yn ymdrechu i roi'r hysbysiad hwn yn brydlon yn dilyn cofrestru Gorchymyn a'i gyhoeddi ar wefan deddfwriaeth.gov.uk. Serch hynny, pan fo llawer iawn o orchmynion, gall yr angen i brosesu'r busnes y mae angen ei osod effeithio ar hynny. Yn yr achos hwn, oherwydd camgymeriad gweinyddol mewnol, bu oedi cyn inni hysbysu'r Pwyllgor am y Gorchymyn.

O ran eich cwestiwn ynghylch dilyniant Gorchmynion o'r fath, mae'r amser rhwng y tri cham yn dibynnu ar sut y byddwn yn eu gweithredu, ac yn cadarnhau wrth y rhanddeiliaid ba ddyddiad neu ddyddiadau y bydd darpariaethau Deddf yn dod i rym, er mwyn iddynt allu paratoi. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn cael ei gadarnhau mewn deddfwriaeth rai misoedd ymlaen llaw, ond mewn achosion eraill, bydd y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn cael gwybod beth fydd y dyddiad cychwyn arfaethedig, er na fydd y Gorchymyn ei hun yn cael ei wneud tan yn nes at y dyddiad a bennwyd.

Byddwn yn hapus i'm swyddogion ac Ysgrifenyddiaeth eich Pwyllgor drafod y trefniadau hysbysu presennol ymhellach, pe bai hynny o unrhyw gymorth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd